# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 13 TACHWEDD 2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Jason W Parry ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau

trwyddedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr  A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Amlygodd bod y troseddau yn rhai hanesyddol a'i fod bellach wedi sefydlu busnes llwyddiannus yn cyflogi dau berson. Nododd ei fod yn berson cyfrifol o gymharu â'i flynyddoedd cynnar ac nad oedd wedi troseddu ers dros 12 mlynedd. Ychwanegodd ei fod yn gwirfoddoli fel Marsial Rali Cymru ac wedi cwblhau achrediad diogelwch.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell  tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd  yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Bod cyfres o gollfarnau (Ebrill 1990) wedi eu datgelu ar gofnod DBS yr ymgeisydd yn cynnwys troseddau gyrru, megis, yfed a gyrru, gyrru heb ofal, gyrru tra wedi ei wahardd, gyrru heb yswiriant a dwy drosedd traffig. O ganlyniad, cafodd ei ddedfrydu i 6 mis o garchar am y drosedd yfed a gyrru, dedfryd o 6 mis ar gyfer gyrru heb ofal (yn rhedeg ar yr un pryd) a 4 mis o garchar am y gwaharddiad (hefyd yn rhedeg ar yr un pryd). Cafodd hefyd ei wahardd rhag gyrru am 5 mlynedd.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y collfarnau yn gyfystyr â throseddau Yfed a Gyrru a Throseddau Traffig Difrifol oedd yn unol â pharagraffau 11 a 12 o bolisi'r Cyngor. Wrth ystyried paragraff 11.2 oedd yn nodi y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeiswyr sydd a mwy nag un gollfarn am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol, oni bai bod 10 mlynedd wedi mynd heibio, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd y troseddau yn sail i wrthod y cais oherwydd bod cyfnod o 22 mlynedd wedi pasio ers adfer y drwydded yrru.

Yr un oedd y farn ynglŷn â'r collfarnau gyrru heb ofal, gyrru tra wedi ei wahardd, gyrru heb yswiriant a dwy drosedd traffig a ystyriwyd o dan baragraff 12.2. Gyda mwy na 3 blynedd wedi mynd heibio ers y troseddau hynny, nid oedd y gwaharddiad o dan baragraff 12.4 yn berthnasol yn yr achos hwn.

Tynnwyd sylw ar gofnod DBS o fod yn euog o droseddau meddu ar ganabis gyda bwriad i gyflenwi yn 1992, yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Yn yr un modd, roedd y drosedd yn un hanesyddol ac yn unol â pharagraff 9.3 o'r polisi, nid oedd yn sail i wrthod y cais

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth nad oedd yr ymgeisydd wedi cael unrhyw

gollfarnau na rhybuddion ers 12 mlynedd ac felly yn fodlon ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Trwyddedu yn cadarnhau trefniant y drwydded.

## 6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Nododd bod rhai o'r troseddau yn hanesyddol, arwahan i un o ymosodiad yn Mehefin 2017. Ymhelaethwyd ar amgylchiadau'r ymosodiad a nodwyd bod yr ymgeisydd yn cyfaddef ei fod wedi gwneud camgymeriad. Er yn ymwybodol o'r drosedd roedd wedi bod yn agored a gonest wrth gyflwyno'r cais. Nodwyd nad oedd tebygolrwydd y byddai yn ail droseddu a bod cael gwaith yn gyfle iddo wella ansawdd ei fywyd a darparu ar gyfer ei blant. Gofynnwyd i'r panel rhoi ystyriaeth lawn i'r sefyllfa ac awgrymwyd mai canllaw yn unig oedd y polisi ac felly bod modd gwyro i gyrraedd y penderfyniad cywir.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Bod cyfres helaeth o gollfarnau wedi eu datgelu ar gofnod DBS yr ymgeisydd oedd yn cynnwys troseddau (rhwng 1990 a 1998) am ddifrod troseddol, troseddau gyrru, codi cynnwrf, lladrad ac ymosodiad cyffredin. Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn bod nifer o'r collfarnau hyn yn berthnasol i droseddau lladrad gyda'r un mwyaf diweddar wedi ei wneud yn 1996. Wrth ystyried paragraff 8.2 o'r polisi a bod y troseddau hyn yn rhai hanesyddol, nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Yr un oedd y farn ynglŷn â'r collfarnau hanesyddol gyrru a thrais lle ystyriwyd paragraffau 12 a 6.5 o'r polisi.

Roedd yr Is Bwyllgor er hynny yn amlygu pryder wrth ystyried collfarn o ymosod ac aflonyddu (Mehefin 2017) lle derbyniodd yr ymgeisydd, o dan adran 2 o'r Ddeddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997, orchymyn cymuned o 12 mis, gorchymyn atal a gorchymyn i dalu iawndal a chostau. Ystyriwyd paragraff 6.5 o'r polisi lle nodir y bydd cais yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn sydd yn llai na 3 blynedd oed cyn dyddiad y cais. Amlygwyd bod y paragraff yn rhestru amryw o droseddau gan gynnwys aflonyddu o dan Ddeddf Trefn Cyhoeddus 1986. Roedd yr Is Bwyllgor yn ystyried aflonyddwch o dan Ddeddf 1997 yn debyg i aflonyddwch o dan Ddeddf 1986 ac felly yn parhau yn gymwys i baragraff 6.5 o'r polisi.

Amlygwyd bod y troseddau hyn wedi digwydd llai na 5 mis yn ôl - yn amlwg o fewn y cyfnod tair blynedd ac yn ystyriaeth debygol i wrthod y cais. Roedd yr Is Bwyllgor yn ymwybodol mai canllaw yn unig oedd paragraff 6.5 fel y bu i gynrychiolydd yr ymgeisydd amlygu. Nodwyd hefyd bod yr Is Bwyllgor yn cydnabod bod modd iddynt wyro oddi ar y polisi petai cyfiawnhad digonol i wneud hynny.

Wedi ystyried bod y drosedd wedi codi o ddigwyddiad domestig yn ymwneud â phartner yr ymgeisydd, nid oedd yr Is Bwyllgor yn ystyried bod hyn yn reswm digonol i wyro oddi ar y canllaw. Yn ychwanegol, roedd yr Is Bwyllgor yn bryderus ynglŷn â anghysondebau amlwg yn yr esboniad a roddwyd ynghylch amgylchiadau'r ymosodiad. Roedd sylwadau llafar yr ymgeisydd yn cyfeirio at afael yng ngarddwrn ei bartner tra roedd sylwadau llafar ei gynrychiolydd yn cyfeirio at yr ymgeisydd yn gwthio ei bartner.

O ganlyniad nid oedd yr Is bwyllgor wedi eu darbwyllo yn ddigonol bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i dderbyn trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gyda manylion am ei hawl i gyflwyno apêl.

The meeting commenced at 2.00 y.h. and concluded at 4.30 y.h.

**CHAIRMAN**